**Atodiad 1 : y Cynllun Adnau - beth mae'n golygu i ardal y Cynllun**

1. O ran cynllunio strategol mae nodweddion ardal y Cynllun fel a ganlyn:

- Economi'r ardal yn fregus, gydag incwm cyfartalog cymharol isel. Dibyniaeth ar y sector gyhoeddus sydd yn crebachu.
- Asedau mawr yn y sector ynni adnewyddol a charbon isel, gyda buddsoddiad niwclear arfaethedig a'i botensial economaidd trawsffurfiol ar draws ardal y Cynllun a gweddill Gogledd Cymru yn ystod oes y Cynllun.
- Sectorau traddodiadol yn bwysig gan gynnwys twristiaeth, amaethyddiaeth a'r gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig felly addysg, a'r gwasanaethau gofal ac iechyd.
- Sefydliadau addysg bellach yn ehangu.
- A55 llwybr Ewrop, rheilffyrdd a phorthladd rhyngwladol a chysylltiadau ffyrdd yn gwella o'r de i ogledd Gwynedd.
- Cymunedau cryf.
- Cymunedau siaradwyr Cymraeg ond ceir arwyddion o newid yng nghadarnleoedd traddodiadol yr iaith, sef y cymunedau lle mae 70% neu fwy'n gallu siarad Cymraeg.
- Pobl ifanc yn symud allan, pobl hyn yn symud i mewn.
- Proffil demograffig yn un sy'n heneiddio gyda risgiau os fydd tueddiadau'n parhau y gellir gweld lleihad tymor hir yn y boblogaeth
- Yng Ngwynedd cafwyd cynnydd poblogaeth oherwydd mudo net, sydd wedi codi a gostwng yn y degawd rhwng y ddau Gyfrifiad. Mae'r mudo'n bennaf o fewn grŵp 15 - 29, gyda bodolaeth y Brifysgol ym Mangor yn cyfrif fel y gyrwyr sengl mwyaf o fudo i mewn ac allan o Wynedd.
- Yn Ynys Môn cafwyd cynnydd poblogaeth oherwydd mudo, sydd wedi codi a gostwng yn y degawd rhwng y ddau Gyfrifiad. Mae yna chwydd yn mudo i mewn i'r Sir ym mysg y grŵp oedran cyn-ymddeol 50 - 64 oed. Mae'r grŵp oedran yma gyfystyr a 16% o'r mudo i mewn.
- Mae'r rhagolygon poblogaeth newydd sail- 2011 Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwynedd yn awgrymu twf o 8.2% yn y nifer o aelwydydd o dan y prif ragolygon (tueddiad mudo 5 mlynedd) a 9.4% o dwf o dan y tueddiad 10 mlynedd.
- Mae'r rhagolygon poblogaeth newydd sail- 2011 Llywodraeth Cymru ar gyfer Ynys Môn yn awgrymu twf o 2.9% o dan y prif ragolygon (tueddiad mudo 5 mlynedd) a thwf o 5.4% o dwf o dan y tueddiad 10 mlynedd.

- Mae fforddiadwyedd tai yn her, yn arbennig mewn rhai aneddleoedd arfordirol a'r rhannau mwy gwledig.
- Galw am ystod well o dai i ddiwallu gofynion aelwydydd lleol.
- Tirwedd amrywiol o ansawdd eithriadol.
- Diwydiant twristiaeth lwyddiannus sy'n manteisio ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig hanesyddol.
- Heriau yn gysylltiedig â newid hinsawdd a defnydd cynaliadwy o adnoddau.

2. Mae'n bwysig bod datblygiad y Cynllun yn rhoi sylw i gynlluniau a strategaethau lleol:

**Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd (2013 – 2017)**

3. Mae gan Bartneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn trwy'r Cynllun Integredig Sengl tri allbwn mewn golwg, sydd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Cymunedau ffyniannus** | Economi cryf a chynaliadwy; cymryd mantais o'r cyfle unwaith mewn oes yn gysylltiedig â Wylfa Newydd i gryfhau economi'r Ynys; gwella sgiliau'r boblogaeth i fanteisio ar y cyfleoedd ddaw gydag economi'r dyfodol; datblygu a hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth.<br><br>Cynyddu'r cyflenwad o dai mwy addas, gan gynnwys tai fforddiadwy, a dod a mwy o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.<br><br>Cynnydd yn y nifer o gymunedau siaradwyr Cymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. |
| **Cymunedau iach** | Byw'n iach a bywiog i atal salwch; oedolion yn byw bywydau annibynnol a llawn; mynediad i wasanaethau iechyd a daioni yn agos i le mae pobl yn byw. |
| **Cymunedau diogel** | Llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol, camdriniaeth ddomestig a difrod troseddgar. |

**Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd (2013 – 2017)**

4. Gweledigaeth Cyngor Gwynedd *yw: "Cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd."*

5. Ei amcanion ar gyfer 2013-17 yw:

- Cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i fyw bywydau cyflawn
- Ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach
- Cefnogi pobl fregus i fyw bywydau cyflawn
- Gwella'r cyfleoedd i bobl Gwynedd fyw, gweithio a llwyddo'n lleol
- Hybu cyflenwad addas o gartrefi i bobl Gwynedd
- Hybu amgylchedd diogel a chynaliadwy, gyda chysylltiadau hwylus
- Cydweithio i greu dyfodol hyderus a Chymraeg
- Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud
- Lleihau effaith amddifadedd ar bobl Gwynedd

**Cynllun Strategol Cyngor Sir Ynys Môn (2013 – 2017)**

6. Erbyn 2017, mae'r Cyngor Sir yn anelu i:

"fod yn Gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, wedi ymrwymo i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion."

7. Ei amcanion ar gyfer 2013-17 yw:

- Cefnogi'r mwyaf bregus
- Datblygu'r economi
- Codi safonau a moderneiddio ein hysgolion

**Rhaglen Ynys Ynni Môn / Parth Menter**

8. Mae'r Rhaglen yn gerbyd i alluogi a hyrwyddo twf cyflogaeth a chyfleoedd datblygu. Mae'n anelu i ffrwyno cymysgedd cyfoethog o ffynonellau ynni, sy'n cynnwys niwclear, gwynt, llanw, biomas a haul; yn ogystal â phrosiectau cysylltiedig sy'n gwasanaethu sy'n darparu potensial mawr i gael budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru. Wrth gyflawni ei amcanion mae'r Rhaglen yn fwy na'r diwydiant ynni, mae'n dylanwadu ar bob agwedd o fywyd yng nghymunedau Ynys Môn a Gogledd Cymru, er enghraifft cysylltiadau cludiant a thai; cyfleusterau twristiaeth a hamdden ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr.

9. Yn nhermau Wylfa Newydd, mae cymhwyso'r Rhaglen yn anelu i sicrhau bod ardrawiadau posib yr Adeiladu Niwclear Newydd a'i ddatblygiadau cysylltiedig yn cael eu hadnabod a'u lliniaru lle mae'n bosib a bod budd

cymdeithasol-economaidd sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer yn cael eu gwireddu'n llawn.

### Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth y Cynllun Adnau

10. Yn ei hanfod, mae'r Cynllun Adnau'n rhoi'r fframwaith cynllunio defnydd tir i hwyluso datblygiadau angenrheidiol i gyfarch y materion sydd angen eu taclo yn ogystal ag amcanion a dyheadau'r Strategaethau a'r Cynlluniau uchod. Mae cysylltiadau'n cael eu gwneud rhwng y prif faterion, e.e. mae hyrwyddo mwy o gartrefi addas i ddiwallu gofynion cymunedau lleol a mwy o gyfleoedd cyflogaeth briodol yn rhoi rhai o'r cynhwysion allweddol i gadw mwy o bobl ifanc a all yn ei dro gryfhau'r iaith Gymraeg.

11. Mae'r Cynllun Adnau'n anelu i sicrhau bod gofynion trigolion yr ardal a'i ymwelwyr yn cael eu cyfarch a bod adfywiad ei drefi a'i bentrefi a'r cefn gwlad o'u cwmpas yn cael ei wireddu mewn ffordd gytbwys a chynaliadwy sy'n adlewyrchu swyddogaeth aneddleoedd cydnabyddedig a chyfleoedd penodol o fewn neu wrth eu hymyl. Wrth gynllunio ar gyfer datblygiad newydd hanfodol mae'r Cynllun yn cydnabod yr angen i warchod beth sy'n werthfawr am yr amgylchedd.

12. Mae'r Cynllun yn dynodi neu warchod tir ar gyfer datblygiad newydd:

   i. 7,184 o gartrefi newydd. Golyga hyn 3,736 o gartrefi yng Ngwynedd, sydd yn is na'r hyn ragwelwyd o dan ragolygon cenedlaethol sy'n seiliedig ar dueddiadau (h.y. heb ymyrraeth polisi). Mae rhannu'r gofyniad sylfaenol yn golygu 3,448 o gartrefi newydd i Ynys Môn, sydd yn uwch na'r hyn ragwelwyd o dan ragolygon cenedlaethol sy'n seiliedig ar dueddiadau (h.y. heb ymyrraeth polisi);
   ii. Er mwyn gallu cynnal y gofyniad statudol o gyflenwad parhaol o leiaf o 5 mlynedd o dir ar gyfer tai, mae lwfans llithriad o 10% yn cael ei ychwanegu at y gofyniad sylfaenol. Golyga hyn bod polisïau'r Cynllun Adnau'n dynodi tir ac yn hyrwyddo defnydd o safleoedd ar hap ac adeiladau presennol ar gyfer 7,902 o unedau tai. Mae rhannu'r ffigwr yma'n golygu 4,084 o unedau i Wynedd a 3,817 i Ynys Môn;
   iii. Mae o gwmpas 50% o'r unedau tai angenrheidiol wedi cael eu hadeiladu'n barod neu gyda chaniatâd cynllunio cyfredol;

iv. Rhagwelir mai araf fydd y twf ym mlynyddoedd cyntaf y Cynllun, gydag ymgodiad yn digwydd wrth i'r economi gryfhau a chynlluniau, rhaglenni a strategaethau'r Cyngor a'i bartneriaid yn llwyddo;
v. Cartrefi newydd ar draws yr ardal yn unol â'r Goeden Aneddleoedd, sy'n adnabod y Ganolfan Isranbarthol (Bangor), Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol, yn ogystal â Phentrefi a Chlystyrau, ac sy'n mynd i hyrwyddo rhwydwaith o gymunedau cynaliadwy;
vi. Dim mwy na 55% i'r Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol; o leiaf 20% i'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol; dim mwy na 25% i'r Pentrefi a Chlystyrau.
vii. Hyrwyddo cymysgedd o fathau a daliadaeth tai i gyfarch gofynion cymunedau'r ardal yn bennaf. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo mwy o unedau tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio, gan ddefnyddio ystod o declynnau presennol a newydd, a hyrwyddo cyflenwad o dai marchnad leol mewn ardaloedd penodol;
viii. Tua 800 hectar o dir cyflogaeth, ar safleoedd diwydiannol neu fusnes presennol neu newydd, rhai ohonynt gyda statws Safle Parth Menter;
ix. Polisïau sy'n darparu hyblygrwydd i ymateb i alw am dir ychwanegol ar gyfer cyflogaeth, gan gynnwys lleoliadau o fewn neu ar ymyl pentrefi;
x. Polisïau sy'n cyfrannu i gynnal a chryfhau'r sector dwristiaeth;
xi. Rhwydwaith o Ganol Trefi, sy'n cynnwys Prif Ardaloedd Siopa, o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol;
xii. Polisïau sy'n hyrwyddo ehangiad sefydliadau uwch a phellach er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol a sgiliau i gyfarch gofynion busnes, gan gynnwys hyrwyddo datblygiad Parc Gwyddoniaeth sail gwybodaeth o safon uchel sydd â chysylltiadau gyda Phrifysgol Bangor;
xiii. Sicrhau bod isadeiledd digonol yn bodoli i gyfarch datblygiadau newydd;
xiv. Gyda'i gilydd gallai datblygiadau sy'n gyson a'r polisïau perthnasol gyfrannu i gynnal a chryfhau cymunedau Cymraeg.

13. Mae'r Cynllun yn gwarchod tir ac adeiladau sy'n werthfawr:

i. Cadwraeth natur, e.e. safleoedd bywyd gwyllt;

ii. Tirwedd werthfawr, e.e. Ardaloedd Harddwch Naturiol Eithriadol, Ardaloedd Tirwedd Arbennig;
iii. Safleoedd, adeiladau ac ardaloedd gwerthfawr, e.e. Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth Byd Eang;
iv. Cyfleusterau hamdden a chymunedol rhag defnyddiau tir sy’n cystadlu am eu lle neu ddatblygiadau all roi pwysau gormodol arnynt;
v. Gwarchod adnoddau gwerthfawr fel mwynau;
vi. Hyrwyddo datblygiad sy’n lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac yn addasu iddynt, e.e. trwy leihau’r bygythiad o lifogydd oherwydd datblygiad newydd trwy ei gyfeirio at ffwrdd oddi ar y gorlifdir; cymhwyso’r hierarchaeth ynni yn effeithiol.

**Monitro ac adolygu**

14. Ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, caiff Adroddiad Monitro Blynyddol ei chyhoeddi a fydd yn adrodd ar gasgliadau’r gwaith monitro. Defnyddir Fframwaith Fonitro i hwyluso’r gwaith yma. Bydd adolygiad llawn o’r Cynllun yn digwydd pob pedair blynedd ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, waeth beth fydd casgliadau’r gwaith monitro.